Annwyl Gwsmer

**Swyddfa Bost® Rhymni**
**70 Y Stryd Fawr, Rhymni, NP22 5LP**

Rwy’n ysgrifennu i gadarnhau y byddwn yn bwrw ymlaen â’n cynllun i ailagor y gwasanaeth hwn yn Nisa, 61 , Rhymni, NP22 5LP, lle caiff ei redeg fel un o'n canghennau lleol Swyddfa'r Post.

Cawsom un ymateb gan gynrychiolydd lleol yn ystod cyfnod yr ymgynghoriad. Roedd yr adborth hwn yn cefnogi ein cynlluniau, ac yn croesawu adfer gwasanaethau Swyddfa'r Post i Rymni. Rwy’n ffyddiog, felly, taw ailagor y gwasanaeth hwn mewn lleoliad newydd yw’r ffordd gywir o symud ymlaen.

Fel y gwyddoch efallai, caeodd y gangen flaenorol dros dro ym mis Gorffennaf 2017 yn dilyn ymddiswyddiad y Postfeistr ac am nad oedd yr adeilad ar gael wedyn i'w ddefnyddio'n Swyddfa Bost. Rydym nawr mewn sefyllfa i adfer gwasanaeth i’n cwsmeriaid yn y gymuned leol. Agorir y ganolfan newydd am 13:00 ddydd Llun 25 Mehefin 2018. Os bydd unrhyw newidiadau annisgwyl i'r amserlen, bydd posteri'n cael eu harddangos mewn canghennau er mwyn rhoi gwybod i gwsmeriaid.

Mae’r wybodaeth hon ar gael hefyd yng Nghanolfan Ymgynghori Swyddfa’r Post yn postofficeviews.co.uk.

Diolch ichi am ystyried ein cynllun.

Yr eiddoch yn gywir

Gareth Shylon

**Gareth Shylon**
**Rheolwr Ardal dros Newidiadau i’r Rhwydwaith**

Sut i gysylltu â ni:

postofficeviews.co.uk

comments@postoffice.co.uk

FREEPOST Your Comments

Mae Swyddfa'r Post Cyfyngedig wedi ymrwymo i ddiogelu eich preifatrwydd, ac mae gwybodaeth ynghylch sut i wneud hyn ar ein gwefan yn www.postoffice.co.uk/privacy

Post Office Limited is registered in England and Wales. Registered No. 2154540.
Registered Office Finsbury Dials, 20 Finsbury Street, London. EC2Y 9AQ
Post Office and the Post Office logo are registered trade marks of Post Office Limited
Cofrestwyd Swyddfa’r Post Cyf yng Nghymru a Lloegr. Rhif Cofrestredig 2154540
Swyddfa Gofrestredig yn Finsbury Dials, 20 Finsbury Street, Llundain. EC2Y 9AQ.
Mae Swyddfa’r Post a logo Swyddfa’r Post yn nodau masnach cofrestredig i Swyddfa’r Post Cyfyngedig

PostOffice.co.uk

Cafodd y broses gyfathrebu hon ei chytuno â chorff gwarchod statudol annibynnol y defnyddwyr, sef y Cyngor ar Bopeth a Chyngor ar Bopeth yr Alban ym Mhrydain, a Chyngor y Defnyddwyr yng Ngogledd Iwerddon. Mae'n cael ei gweithredu yn unol â'n Cod Ymarfer ar gyfer newidiadau i rwydwaith Swyddfa'r Post, a gytunwyd â nhw. Os hoffech gael copïau o'r Cod, maent ar gael mewn canghennau, neu wrth gysylltu â ni neu wrth ymweld â'n gwefan yn: postofficeviews.co.uk. Os ydych o'r farn nad ydym wedi dilyn y broses yn gywir ac yn dymuno gwneud cwyn, byddwch cystal ag anfon llythyr neu ebost atom wrth ddefnyddio'r manylion cyswllt yn ein posteri a llythyrau ac esbonio pam. Byddwn yn archwilio eich cwyn ac yn rhoi ateb i chi cyn gynted â phosibl. Byddwn yn rhoi'r mannau cyswllt perthnasol ar gyfer y corff gwarchod defnyddwyr i chi. Felly, os ydych yn dal yn anfodlon ar ôl derbyn ein hymateb, gallwch ofyn iddynt am eu cymorth.

**Manylion am y gwasanaeth newydd:**

**Swyddfa Bost Rhymni**
Nisa
61 Y Stryd Fawr
Rhymni
NP22 5LP

**Oriau agor**

| | |
|---|---|
| Llun | 07:00–23:00 |
| Mawrth | 07:00–23:00 |
| Mercher | 07:00–23:00 |
| Iau | 07:00–23:00 |
| Gwener | 07:00–23:00 |
| Sadwrn | 07:00–23:00 |
| Sul | 07:00–23:00 |

**Gwasanaethau**
Bydd y rhan fwyaf o wasanaethau ar gael o hyd.

**Mynediad a chyfleusterau**
Mae gan y gangen hon ddrws llydan a stribed trothwy wrth y fynedfa.

**Trafnidiaeth/parcio**
Mae yna barcio am amser cyfyngedig ar ymyl y ffordd gerllaw.

**Llwybr**
Mae'r gwasanaeth Swyddfa'r Post hwn tua 50 metr o'r gangen flaenorol, ar hyd tir amrywiol ei natur.

**I gael yr wybodaeth hon mewn fformat gwahanol, er enghraifft, print bras, sain neu Braille, byddwch cystal â chysylltu â'r Llinell Gymorth i Gwsmeriaid ar 03452 66 01 15 neu Ffôn Testun 03457 22 33 55.**